CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Mai 28ain, 2020

Annwyl Aelod,

Gwysir chi fod yn bresennol mewn cyfarfod drwy'r we o'r Cyngor **nos Fercher, Mehefin 3ydd, 2020** am 7.45 o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc) – **Coronafirws (Covid-19)**
4. Cadarnhau Cofnodion – Is-bwyllgor Ariannol Mawrth 10fed a'r Cyngor Mawrth 11eg, 2020
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. Cadarnhau Cyfrifon 2019 – 2020
7. Dyfarniadau Cynllunio
8. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
9. Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO EBRILL A MAI 2020

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C20/0016/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Newid defnydd rhan o gae pori amaethyddol ar gyfer storio carafanau teithiol – **Ty'n-y-Mur Camping Site, Lôn Garmon, Aber-soch**
2	C20/0299/39/DT	Codi estyniadau unllawr ar flaen a chefn yr eiddo presennol – **227 Cae Du, Aber-soch – CANIATAWYD AG AMODAU EISOES**
3	C20/0228/39/DT	Estyniadau unllawr a deulawr i eiddo yn cynnwys ymestyn cegin a chreu ystafell wely en-suite ac ystafell ardd ar lefel llawr daear a chreu ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf, ynghyd â gwaith cysylltiol – **Ynysfor, Lôn Sarn Bach, Aber-soch**
4	C20/0249/39/TC	**(Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr fel arfer)** Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio adeilad presennol at bwrpas storio fel ag a ganiateir dan dosbarth defnydd B8 – **Storfa, Cae Arfryn, Mynytho**
5	C20/0280/39/DT	Tynnu to fflat ac adeiladu un brig i'r modurdy, ynghyd â gosod byrddau cladio gwyn ar y waliau – **16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn**
6	C20/0301/39/DT	Creu agoriad newydd yn y wal ffin ar gyfer mynedfa gerbydol a chodi ffens postyn a rheiliau i wahanu tramwyfa sy'n cael ei rhannu – **Glasfryn, Allt Graigwen, Mynytho**
7	C20/0342/39/DT	Addasiadau a newidiadau gan gynnwys gosod ffenestri to, cladin allanol a chysgodfan ar gyfer ceir, ynghyd â gwaith tir yn cynnwys codi wal gynnal, creu gofod parcio ac ardal patio newydd – **64 Cae Du, Aber-soch**
8	C20/0352/39/DT	Gosod pedair ffenestr gromen – **Elim, Lôn Garmon, Aber-soch**
9	C20/0355/39/DT	Estyniad deulawr ochr – **Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
10	C20/0373/39/DT	Estyniad unllawr ochr – **Beach House, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
11	C20/0374/39/LL	Dymchwel annedd presennol ac adeiladu un newydd yn ei le – **Leeward, Lôn Traeth, Aber-soch**